MENTER IAITH
BRO MORGANNWG

# CYNLLUN CORFFORAETHOL 2019-22



# CEFNDIR

Mudiadau lleol yw'r Mentrau Iaith sy'n rhoi cymorth i gymunedau i gynyddu ac ehangu'r defnydd o'r Gymraeg drwy drefnu pob math o ddigwyddiadau i bobl o bob oed gael mwynhau a chymdeithasu trwy gyfrwng y Gymraeg.

Sefydlwyd Menter Bro Morgannwg yn 2014 i ddarparu a chefnogi rhaglen eang o gyfleoedd cymdeithasol yn y Gymraeg y tu allan i oriau ysgol a'r gwaith, ac annog, cymhwyso, hwyluso a chefnogi gwirfoddolwyr a chyfleoedd cyflogaeth ym Mro Morgannwg.

Mae Menter Bro Morgannwg yn gweithio mewn partneriaeth i ddarparu cyfleoedd apelgar yn y Gymraeg gan sicrhau profiadau gwerthfawr i bobl o bob oedran, cefndir a gallu ieithyddol.

Mae ein gwasanaethau yn bwysig iawn i ddarparu, cefnogi a chynyddu defnydd cymunedol o'r iaith, ac fe fyddwn yn parhau i adeiladu ar y partneriaethau cryf ac amrywiol i wireddu'r weledigaeth.

**Yn ystod 2018 mae Menter Bro Morgannwg wedi:**

- Trefnu dros 450 o weithgareddau unigol
- Ymgysylltu gyda dros 9,000 o ddefnyddwyr gwasanaeth
- Cyflogi 28 o aelodau staff achlysurol
- Gweithio gyda 30 o bartneriaid ar draws y sector preifat, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector.

# UCHELGAIS

**Y Gymraeg yn dod yn rhan ganolog o fywyd ym Mro Morgannwg.**

# DATGANIAD CENHADAETH

**Hyrwyddo ac ehangu'r defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg ym Mro Morgannwg.**

Mae Menter Bro Morgannwg yn cefnogi gweledigaeth Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 a Strategaeth Cyngor Bro Morgannwg o gynyddu y nifer o siaradwyr erbyn 2021.


Mae ein gwaith yn cefnogi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 o greu Cymru yr ydym i gyd eisiau byw ynddi, nawr ac yn y dyfodol. Yn ganolog i'n huchelgais yw gweld ardal Bro Morgannwg yn fwrlwm o ddiwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu yngyd â chymdeithas sy'n hyrwyddo a gwarchod ein diwylliant, ein treftadaeth a'n hiaith.

Mae gan bob un ohonom, yn bartneriaid, cyllidwyr, rhanddeiliaid, gwirfoddolwyr a thrigolion Y Fro gyfraniad pwysig tuag at wireddu hyn.

# AMCANION STRATEGOL

- **Creu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn ein cymunedau**
- **Codi ymwybyddiaeth a gwella agweddau pobl tuag at y Gymraeg**
- **Codi hyder i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol**
- **Datblygu cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant i bobl ifanc ac oedolion trwy gyfrwng y Gymraeg**
- **Trefnu Gŵyl i ddathlu'r Gymraeg a'i diwylliant**
- **Sicrhau bod gan y Fenter llwyfan digidol effeithiol**
- **Gweithio mewn partneriaeth gyda chyrff a sefydliadau amrywiol**

# EIN BLAENORIAETHAU





# TEULU

**Cynnig cyfleoedd cymdeithasol cyfrwng Cymraeg i blant a'u rhieni/gwarchodwyr.**

Byddwn yn:

- cynnig mwy o gyfleoedd i deuluoedd Bro Morgannwg gymdeithasu trwy gyfrwng y Gymraeg
- sicrhau dilyniant o un oedran i'r llall o fewn ein rhaglenni
- trefnu gweithgareddau mewn amrywiaeth o leoliadau ar draws cymunedau'r Fro
- cefnogi Partneriaeth Datblygu Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant Cyngor Bro Morgannwg
- adnabod ardaloedd lle bod angen ehangu'r ddarpariaeth
- creu partneriaethau gweithredol cryf

*"Just wanted to say thank you for running the baby sensory sessions at Barry Library. My son has really enjoyed it and my husband has even enjoyed taking him there! Neither my husband nor I are Welsh speakers so this has been a fantastic introduction to the language for our son and for us too!"*



# PLANT A PHOBL IFANC

**Cynnig cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i oriau Ysgol/Coleg.**

Byddwn yn:

- cynnig mwy o gyfleoedd i blant a phobl ifanc Bro Morgannwg gymdeithasu trwy gyfrwng y Gymraeg
- trefnu gweithgareddau mewn amrywiaeth o leoliadau ar draws cymunedau'r Fro
- parhau i gasglu barn plant a phobl ifanc Y Fro o'r ffyrdd yr hoffen nhw weld y Gymraeg yn datblygu
- parhau i gyfrannu tuag at Fforwm Addysg Gymraeg Cyngor Bro Morgannwg
- adnabod ardaloedd lle bod angen ehangu'r ddarpariaeth
- adnabod cyfleoedd i gydweithio gyda'r sector Addysg Bellach/Uwch i sicrhau dilyniant ieithyddol i bobl ifanc 16+ oed
- creu partneriaethau gweithredol cryf

*"Mae'r Cynllun Gofal yn wasanaeth hollbwysig i ni, gan wneud y Gymraeg yn iaith ar gyfer hamdden a chymdeithasu, yn hytrach na dim ond yn iaith yr ysgol. Mae'n rhoi profiadau gwych i'r plant, yn gyfle iddyn nhw gymdeithasu gyda'u ffrindiau yn ystod gwyliau ysgol, a gwneud ffrindiau newydd o ysgolion eraill."*



# OEDOLION

**Cynnig cyfleoedd cymdeithasol i oedolion Bro Morgannwg ddefnyddio ac ymarfer y Gymraeg yn gymdeithasol.**

Byddwn yn:

- cydlynu a chynnal rhaglen o gyrsiau hamdden i oedolion sy'n addas ar gyfer amryw o alluoedd iaith
- cefnogi ymdrechion oedolion sy'n dysgu neu'n ail afael â'r Gymraeg trwy ddarparu a hyrwyddo cyfleoedd i ymarfer, sgwrsio a chodi hyder
- adnabod ardaloedd lle bod angen ehangu'r ddarpariaeth
- trefnu gweithgareddau a digwyddiadau mewn amrywiaeth o leoliadau ar draws cymunedau'r Fro
- creu partneriaethau gweithredol cryf

## Mae 25,100 (20%) o siaradwyr Cymraeg ym Mro Morgannwg (pobl 3+ oed)

*Arolwg Blynyddol y Boblogaeth, Llywodraeth Cymru – mae'r arolwg hwn yn cynnig amgangyfrif mwy rheolaidd o nifer y siaradwyr Cymraeg, ac felly gall data'r Arolwg fonitro'r tueddiadau rhwng y Cyfrifiadau*

# GŴYL FACH Y FRO

**Cynnal gŵyl flynyddol i ddathlu'r iaith, celfyddydau a diwylliant Cymreig.**

Byddwn yn:

- codi proffil y Gymraeg ym Mro Morgannwg trwy roi cyfle i blant, pobl ifanc ac oedolion flasu ychydig o iaith a chelfyddyd Gymreig
- cynyddu ymwybyddiaeth a gwerth o'r Gymraeg yn y gymuned
- cyflwyno'r iaith a diwylliant Cymreig i gynulleidfa hollol newydd
- cynnig cyfle i godi hyder yn y Gymraeg a chael mynediad at yr iaith
- datblygu ein llwyfan digidol i gysylltu gyda'n defnyddwyr presennol a denu cynulleidfa newydd
- parhau i ddatblygu syniadau newydd i sicrhau gŵyl o ansawdd uchel
- creu partneriaethau gweithredol cryf

*"Mae Gŵyl Fach y Fro yn cryfhau'r teimlad o gymuned Gymraeg yn y Barri ac yn gyfle gwych i gymdeithasu a mwynhau drwy gyfrwng y Gymraeg gyda theulu a ffrindiau."*






# Y GYMUNED

**Cyfrannu tuag at greu Bro Morgannwg lle gall bobl fyw eu bywydau yn gwbl ddwyieithog.**

Byddwn yn:

- parhau i dargedu a chefnogi unigolion a busnesau bach ar hyd a lled Y Fro i gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg
- arwain Fforwm Iaith Bro Morgannwg i hybu'r Gymraeg a hwyluso'i defnydd yn ehangach
- adeiladu ar ein rhwydwaith cysylltiadau
- datblygu ein llwyfan digidol i gysylltu gyda'n defnyddwyr presennol a denu cynulleidfa newydd
- parhau i ddarparu cyfleoedd i gymdeithasau a mudiadau lleol i hyrwyddo digwyddiadau Cymraeg ym Mro Morgannwg drwy ein gwasanaeth e@chlysur
- cynnig cyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth yn ein gweithgareddau i drigolion Bro Morgannwg

*"Mae'r Fenter yn cynnig cyfleoedd amrywiol i blant ymarfer yr iaith, sydd mor bwysig os nad ydynt yn dod o gartrefi Cymraeg"*

Mae'r Cynllun Corfforaethol yma yn adeiladu ar 5 mlynedd llwyddiannus o gynnal cyfleoedd cymdeithasol cyfrwng Cymraeg ym Mro Morgannwg.

Byddwn yn parhau i gydweithio gyda nifer eang o bartneriaid a rhanddeiliaid ar hyd a lled Y Fro er mwyn cynyddu'r ddarpariaeth gymunedol i gael effaith gadarnhaol ar gefnogi a hwyluso mwy o ddefnydd cymunedol o'r Gymraeg.

Rydym yn ymgynghori gyda'n cwsmeriaid yn rheolaidd i sicrhau bod llais y cwsmer wrth wraidd ein gwaith o gynllunio gwasanaethau, ac yn gwerthuso ein holl ddarpariaeth yn flynyddol.

Gyda'n gilydd gallwn barhau i arloesi, mentro a chydweithio i greu cyfleoedd newydd ac apelgar i gynyddu defnydd o'r Gymraeg er mwyn cyfrannu tuag at wireddu gweledigaeth Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

# MONITRO

Mae Bwrdd Rheoli Menter Bro Morgannwg yn mesur cyrhaeddiad pob maes wrth fonitro y Cynllun Gweithredol.

Mae Menter Bro Morgannwg hefyd yn adrodd i Lywodraeth Cymru a Chyngor Bro Morgannwg fel rhan o'n cytundeb partneriaeth blynyddol.

---


MIBroMorgannwg

MIBroMorgannwg

menter_bro_morgannwg

029 2068 9888
manon@menterbromorgannwg.cymru
**menterbromorgannwg.cymru**